

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

**Casglu a rheoli trethi datganoledig
yng Nghymru**

Mai 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru
Twitter: [@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

**Casglu a rheoli trethi datganoledig
yng Nghymru**

Mai 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae eu cylch gwaith hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd i oruchwyllo materion llywodraethu Swyddfa Archwilo Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Jocelyn Davies (Cadeirydd)

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Peter Black

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Christine Chapman

Llafur Cymru
Cwm Cynon



Mike Hedges

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Alun Ffred Jones

Plaid Cymru
Arfon



Ann Jones

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Julie Morgan

Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Nick Ramsey

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion y Pwyllgor	6
1. Cyflwyniad	8
Cefndir	8
Telerau'r gwaith craffu	9
Dull y Pwyllgor o weithredu.....	9
2. Dirprwyo'r gwaith o gasglu trethi	10
3. Rôl Awdurdod Cyllid Cymru	17
Atebolrwydd a rôl Awdurdod Cyllid Cymru yn y dyfodol	17
Annog cydymffurfiad â threthi a datrys anghydfodau trethi	22
Atodiad A - Tystion.....	24
Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	25

Rhagair y Cadeirydd

Yn dilyn ein hymchwiliad a'r ddau adroddiad wedi hynny ar arfer gorau mewn prosesau cyllidebol a chyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd i ddod, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai cynnal yr ymchwiliad byr hwn i gasglu a rheoli trethi datganoledig yn ychwanegu gwerth at y gwaith sydd i ddod sy'n ymwneud â threthi.

Roedd y dystiolaeth a gafwyd gan gynrychiolwyr llywodraeth leol yn ystod yr ymchwiliad wedi creu argraff ar y Pwyllgor, ac rydym yn siomedig yr ymddengys yn glir, oherwydd yr aildrefnu o fewn llywodraeth leol, na fyddant mewn sefyllfa i gasglu'r trethi hyn pan fo angen gwneud hynny yn 2018. Fodd bynnag, gobeithiwn yn fawr y defnyddir arbenigedd llywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod er mwyn sicrhau y datblygir system drethi integredig yng Nghymru.

Mae'r dystiolaeth yn dangos mai gofyniad sylfaenol rhanddeiliaid yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gasglu a rheoli trethi datganoledig yw'r angen am gysondeb, sefydlogrwydd a hyblygrwydd. Fel Pwyllgor, y gobaith yw y bydd y trefniadau cydweithio rhyngom ni a Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y broses o sicrhau bod y cyfnod pontio hwn yn bodloni gofynion rhanddeiliaid.

Rydym yn gobeithio bod ein hymchwiliad ar gasglu a rheoli trethi yng Nghymru yn ddefnyddiol i'r Gweinidog wrth iddi ystyried pa gorff ddylai gasglu'r trethi datganoledig.



Jocelyn Davies
Cadeirydd

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad ymddengys y gofynnwyd i'r ddau brif gorff casglu trethi gyflwyno achos busnes gyda chostau manwl mewn perthynas â chasglu trethi datganoledig, ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion am unrhyw wybodaeth am gostau sydd ar gael ar gyfer pob opsiwn dros yr haf ar y cyd â'r Bil ar gasglu trethi. (Tudalen 16)

Argymhelliad 2. Gan nad oes costau ar gael, ni all y Pwyllgor wneud argymhelliad cadarn ynghylch pwy ddylai gasglu'r trethi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddem yn argymhell bod y gwaith o gasglu trethi yn cael ei wneud yn raddol am yr ychydig flynyddoedd cyntaf ar ôl datganoli trethi yng Nghymru. Dylai hyn roi cyfle i sicrhau cysondeb yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf o'r trethi newydd yng Nghymru, ond bydd yn sicrhau bod cwmpas ar gyfer newid yn y dyfodol, naill ai pan fo Llywodraeth Leol Cymru mewn sefyllfa well ar ôl aildrefnu neu pan fo Awdurdod Cyllid Cymru wedi datblygu'r sgiliau, y ddealltwriaeth a'r arbenigedd i gasglu trethi yn effeithiol gan amharu cyn lleied â phosibl ar y trethdalwr. (Tudalen 16)

Argymhelliad 3. Cred y Pwyllgor, er y dylid ymgynghori ag adrannau gwario ar bolisiau trethu, rhaid i'r Gweinidog Cyllid reoli'r system drethi yng Nghymru mewn ffordd integredig. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygu polisiau trethu sy'n rhan o sawl portffolio gweinidogol, gyda'r cyfrifoldeb am drethi datganoledig yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyllid. (Tudalen 16)

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y caiff rhanddeiliaid eu cynrychioli ar fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru. (Tudalen 21)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell na ddylai dull casglu trethi Awdurdod Cyllid Cymru amrywio o'r DU oni bai bod rhesymau clir o ran pam y dylai dull Cymru fod yn wahanol. (Tudalen 21)

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell er mwyn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithredu'r system drethi mewn ffordd dryloyw y dylai fod yn atebol yn uniongyrchol i'r Cynulliad gydag un o Bwyllgorau'r Cynulliad yn gwneud y gwaith craffu. Dylai hyn gynnwys adroddiadau gweithredu bob chwe mis yn arwain at 2018, gan ddechrau ar unwaith. (Tudalen 21)

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad arall ar ei hystyriaeth o argymhelliad 7 (ystyried sefydlu comisiwn ariannol i Gymru) yn yr adroddiad ar arfer gorau mewn prosesau cyllidebol. (Tudalen 22)

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai penderfyniad ynghylch creu comisiwn ariannol i Gymru ganiatáu digon o amser iddo gael ei weithredu'n briodol erbyn 2018. (Tudalen 22)

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried sut y gellir cyfleu datganoli trethi yn glir i ymarferwyr yng Nghymru a Lloegr, a dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod â brand clir er mwyn sicrhau bod ganddo hunaniaeth glir â'r cyhoedd. (Tudalen 22)

Argymhelliad 10. Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer annog cydymffurfiad â threthi a datrys anghydfodau treth, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio arbenigedd llywodraeth leol a hyblygrwydd arferion mewn perthynas ag adfer treth. (Tudalen 23)

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y defnyddir y system o ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod, ac y dylai gynnwys cyswllt uniongyrchol â threthdalwyr cyn ystyried cosbau neu drafodion drud mewn llys. (Tudalen 23)

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. O fis Ebrill 2018, bydd angen i Gymru gael system ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig newydd a gyflwynir yng Nghymru. Fel rhan o'i [Chynllun Gweithredu Trysorlys Cymru](#), mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyflwyno deddfwriaeth ar gasglu a rheoli trethi gyntaf. Bwriedir cyflwyno Bil ar y trefniadau hyn yn y Cynulliad yn ystod haf 2015.

2. Wrth baratoi ar gyfer y cyfrifoldebau newydd hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn, [Casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru](#). Y Papur Gwyn hwn yw'r cyntaf o dri ymgynghoriad sy'n ymwneud â chynigion ar gyfer trethi yng Nghymru. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn oedd 15 Rhagfyr 2014. Y prif feysydd a drafodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn oedd:

- sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru, ynghyd â llywodraethu ac adrodd;
- pa gyrff ddylai gasglu a rheoli trethi datganoledig;
- rhwymedigaethau ar drethdalwyr;
- annog cydymffurfiad â threthi;
- mynd i'r afael ag osgoi trethi, defnyddio dull i ymdrin â chamdefnydd neu ddull i ymdrin ag osgoi trethi'n ehangach; a
- datrys anghydfodau treth.

3. Mae ymgynghoriadau eraill Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â datblygu Treth ar Waredu i Safleoedd Tirlenwi a chynigion i gyflwyno Treth Trafodiadau Tir i ddisodli Treth Dir y Dreth Stamp, wedi'u cynnal. Mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd bwrw ymlaen a deddfwriaeth mewn perthynas â'r trethi hyn i'w rhoi ar waith ym mis Ebrill 2018.

4. Yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2015, cytunodd y Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") gynnal ymchwiliad i gasglu trethi datganoledig gyda'r nod o fynegi barn ar ba sefydliadau yw'r rhai mwyaf priodol i gasglu trethi datganoledig yn y byrdymor a'r hirdymor.

Telerau'r gwaith craffu

5. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer yr ymchwiliad:

Ystyried:

- y sefydliadau mwyaf effeithlon i gasglu trethi datganoledig yn y byrdymor a'r hirdymor; a'r
- cydbwysedd rhwng yr angen am sefydlogrwydd a chyfleoedd i ddatblygu trethi sydd wedi'u teilwra ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

Dull y Pwyllgor o weithredu

6. Rhwng 23 Mawrth 2015 a 24 Ebrill 2015, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ei waith, yn seiliedig ar gylch gorchwyl y cytunwyd arno. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad B.

7. At hynny, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar â nifer o dystion yn Atodiad A. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi amlinelliad o ganfyddiadau'r Pwyllgor ac mae'n gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, mewn perthynas â'r canlynol:

- Dirprwyo'r gwaith o gasglu trethi; a
- Rôl Awdurdod Cyllid Cymru

2. Dirprwyo'r gwaith o gasglu trethi

Cefndir

8. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar [Gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru](#) a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft yn awgrymu tri phrif opsiwn ar gyfer casglu trethi:

- defnyddio un sefydliad i gasglu a rheoli - byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn dirprwyo'r gwaith o gasglu a rheoli trethi i un sefydliad (e.e. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi);
- defnyddio mwy nag un sefydliad i gasglu a rheoli - byddai nifer o sefydliadau yn casglu trethi amrywiol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru neu awdurdodau lleol); a
- chadw'r gwaith o gasglu a rheoli trethi yn gyfan gwbl o fewn yr endid corfforaethol - byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn datblygu arbenigedd mewnol i gasglu trethi yn uniongyrchol.

Tystiolaeth

9. Roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn nodi nifer o ffactorau y dylid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chasglu trethi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lleihau beichiau gweinyddol ar fusnesau;¹
- dylai'r costau gweinyddol fod yn isel drwy ddefnyddio systemau sy'n bodoli eisoes;²
- peidio â rhoi beichiau ychwanegol o ran cymhlethdodau ac adroddiadau ar fusnesau bach.³

10. Yn ogystal â'r ffactorau uchod, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr egwyddorion a ddylai danategu system casglu trethi, yn ei barn hi:

- a. Minimise leakage and avoidance
- b. Maximise collection
- c. Minimise burdens on businesses / taxpayers

¹ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT01

² Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT03

³ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT02

d. Minimise complexity

e. Minimise administration costs.”⁴

11. Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn nodi pryderon ynghylch casglu trethi'n drawsffiniol. Mynegodd y Sefydliad Siartredig ar gyfer Trethiant, yn ogystal â Mr Evans, cyfreithiwr gweithredol⁵, hyn fel pryder⁶. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod angen i brosesau fod yn syml er mwyn helpu cyfreithwyr ar ddwy ochr o'r ffin.⁷

12. Roedd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru safbwynt clir ynghylch pwy ddylai gasglu trethi. Dywedodd:

“Local authorities in Wales are best placed to collect and manage devolved taxes. They already have systems in place to undertake the management and collection of taxes and/or sundry debtor accounts.”⁸

13. Ymhelaethodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar hyn yn ystod sesiwn tystiolaeth lafar, gan nodi bod arbenigedd mewn perthynas â chasglu trethi o fewn llywodraeth leol y dylid manteisio arno.⁹

14. Fodd bynnag, nid oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynrychiolwyr awdurdodau lleol o'r farn ei bod yn ymarferol y byddai llywodraeth leol mewn sefyllfa i gasglu trethi erbyn 2018. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amlinellu'r rhesymau dros hyn:

“ - The future shape of local government is not yet determined, but the transition process will encompass April 2018 when the Welsh devolved taxes become operational. The degree of uncertainty means that it is extremely difficult for individual authorities to commit to new responsibilities from 2018;

- Timescales have not allowed for the development of a sufficiently robust proposal with all of the consultation that

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT03

⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 99

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT01

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ebrill 2015, paragraff 277

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT03

⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ebrill 2015, paragraff 198

this would require. Councils are focused on achieving balanced budgets for 2015-16 and implementing savings plans. The level and scale of cuts that need to be addressed means that there is not the capacity at the senior level required to give this proposition the serious consideration needed within the timescales available;

- A detailed process map would need to be developed which sets out all the steps involved, what can be provided within current systems and what needs to be developed separately;
- Discussions would need to take place at an all-Wales level at both political and officer fora to agree whether one or more authorities should seek to provide these services, and which authority(ies) this should be;
- Further work would be required with the authority(ies) to discuss the details of how this might work and to provide robust estimates of the potential costs involved.”¹⁰

15. Fodd bynnag, mewn sesiwn tystiolaeth lafar, dywedodd cynrychiolwyr llywodraeth leol fod yr amserlenni mewn perthynas â'r newidiadau yn eu hatal rhag ymrwymo'n llwyr i allu bwrw ymlaen â chasglu trethi. Dywedodd:

“...if Welsh Government were able to give a longer lead-in time and said to local government, ‘Could you commit to delivering it by 2018?’ I think the answer could be ‘Possibly yes’, but if you need that answer by next month, then we wouldn’t be able to give that commitment in such a short timescale.”

“...It’s the timescales of decision making that are perhaps the obstacle for us. It’s not the logistical exercise and the operation of making it work. I think we could make it work within that three-year window, but it’s the decision making within the WLGA, Welsh Government and others that perhaps prevents that. But, I think, on the ground, operationally, there’s no reason why we couldn’t do it.”

“... That point was made in the WLGA response. It was because it’s such a short turnaround for a commitment that the answer

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT03

is 'Probably no'. If Welsh Government were able to extend the period for Welsh Government to work up an operating model, then I think it's a possible 'yes'. The only sort of problem in the future is, with the local government reorganisation, you'd have to have some certainty about how that landscape was looking, to make sure that you're not putting in place an operating model that would need to change within two years."¹¹

16. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru pe byddai'r gwaith o gasglu trethi yn cael ei ddirprwyo i lywodraeth leol, bod posibilrwydd y gallai un awdurdod lleol fod yn gyfrifol ar sail Cymru gyfan, neu un awdurdod ym mhob rhanbarth.¹²

17. Roedd rhywfaint o gonsensws y byddai'n ddefnyddiol bod un corff yn casglu trethi ac y byddai'n lleddfu'r baich ar y trethdalwr. Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru o'r farn mai Awdurdod Cyllid Cymru ddylai fod y corff sy'n casglu ac yn rheoli trethi. Dywedodd y byddai'r dull gweithredu hwn yn osgoi dryswch oherwydd gallai dirprwyo trethi gymhlethu'r broses o dalu ar gyfer busnesau bach yng Nghymru.¹³

18. Dywedodd y Sefydliad Siartredig ar gyfer Trethiant fod yn well ganddo gael:

“a single national body ideally with expertise and experience of tax collection and management (or access to such expertise) because this option provides a consistent approach (rather than the risk of variations at the local level) which can be also adopted for current and future devolved taxes. However there may be a clear rationale for an existing body to manage and collect particular devolved taxes.”¹⁴

19. Roedd yr Athro Holtham o'r farn y dylai “efydliadau sy'n bodoli eisoes” gasglu trethi.¹⁵ Adleisiwyd hyn gan y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel. Dywedodd:

¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ebrill 2015, paragraffau 349-353

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT03

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT02

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT01

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT05

“We are concerned that changes from the existing established system may result in confusion for unrepresented and vulnerable taxpayers.”¹⁶

20. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n casglu trethi ar hyn o bryd. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn feirniadol o berfformiad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn y maes hwn a dywedodd:

“...when you look at the tax gaps in Her Majesty’s Revenue and Customs, central Government aren’t very good at collecting taxes’. And, indeed, if HMRC was as efficient as local government at collecting taxes, there would be an extra £20 billion in the exchequer.”¹⁷

21. Fodd bynnag, roedd yr Athro Holtham o'r farn mai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddylai gasglu trethi o hyd oherwydd y newidiadau mewn llywodraeth leol. Dywedodd:

“It may be that if local authorities are consolidated, there could be an even greater consolidation of local authority tax collection. If there were a single or few local authority tax collection agencies, it or they might provide an alternative to HMRC for the collection of stamp duty on residential property transactions or landfill tax. That possibility would provide some potential competition for HMRC. However, that is not the case at present and it seems that HMRC is currently the best option for the minor taxes being devolved.”¹⁸

22. Gwnaeth yr Athro Holtham y pwynt hefyd y bydd y trethi sydd wedi'u datganoli i Gymru ar hyn o bryd ond yn darparu ychydig iawn o refeniw a dywedodd, “so you don’t want to be eating into that by setting up a whole new agency if you can do it through the existing agencies”.¹⁹

23. Dywedodd yr Athro Holtham y gellid bod elfen o gymell er mwyn gwella cyfradd gasglu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.²⁰

24. Dywedodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ei fod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall ei chynlluniau ar gyfer casglu'r trethi

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT07

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ebrill 2015, paragraff 198

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT05

¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 336

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 334

datganoledig. Unwaith y caiff y rhain eu cadarnhau, bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn sefyllfa i roi amcangyfrif o'r costau y byddent yn mynd iddynt pe byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn casglu'r trethi. Rhoddodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi amcangyfrif tebyg o gost i Lywodraeth yr Alban yn seiliedig ar y costau gweithredu er mwyn addasu'r system gyfredol, yn ogystal â'r costau parhaus.²¹

25. O ran costau casglu trethi datganoledig, roedd y dystiolaeth a gafwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru²² a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, yn ogystal â Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi²³, yn awgrymu nad oedd unrhyw achosion busnes gyda manylion am gostau casglu trethi datganoledig wedi'u paratoi.

26. Mae'r adran hon yn ymwneud yn bennaf â chasglu trethi ond cafodd polisiau trethu eu crybwyll yn ystod sesiwn dystiolaeth, gyda'r Athro Holtham yn dweud y dylai polisiau trethu fod yn gyfrifoldeb diwahân ar y Gweinidog Cyllid. Cred yr Athro Holtham y dylid bod system drethi integredig gyda threthi datganoledig, y dreth gyngor ac ardrethi busnes yn cael eu rheoli gyda'i gilydd gan y Gweinidog Cyllid, yn hytrach na chael eu rhannu rhwng adrannau.²⁴

Safbwynt y Pwyllgor

27. Roedd yr ymrwymiad a'r dymuniad a ddangoswyd gan lywodraeth leol mewn perthynas â chasglu trethi wedi creu argraff ar y Pwyllgor. Yn amlwg, mae arbenigedd mewn llywodraeth leol y dylid ei ddefnyddio yng Nghymru.

28. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd trethdalwyr, cyfreithwyr a busnesau yn disgwyl i systemau fodloni egwyddorion clir o ran cysondeb, symlrwydd a dibynadwyedd. Gan nad oes achos busnes yn rhoi manylion am sut y byddai system a ddefnyddir gan lywodraeth leol yn gweithio pe byddai ganddi rôl yn y gwaith o gasglu trethi ar gael, ni all y Pwyllgor gefnogi llywodraeth leol yng Nghymru yn cael rôl bwysig yn y gwaith o gasglu trethi yng Nghymru ar hyn o bryd.

29. Yn amlwg mae budd o gael corff yng Nghymru, fel Awdurdod Cyllid Cymru, yn casglu'r trethi hyn. Fodd bynnag, unwaith eto am

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2015, paragraff 300

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ebrill 2015, paragraff 349

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2015, paragraff 301

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 257

resymau o ran cysondeb, symlrwydd a dibynadwyedd, ni chred y Pwyllgor y dylai Awdurdod Cyllid Cymru gasglu trethi ar hyn o bryd.

Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad ymddengys y gofynnwyd i'r ddau brif gorff casglu trethi gyflwyno achos busnes gyda chostau manwl mewn perthynas â chasglu trethi datganoledig, ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion am unrhyw wybodaeth am gostau sydd ar gael ar gyfer pob opsiwn dros yr haf ar y cyd â'r Bil ar gasglu trethi.

Gan nad oes costau ar gael, ni all y Pwyllgor wneud argymhelliad cadarn ynghylch pwy ddylai gasglu'r trethi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddem yn argymhell bod y gwaith o gasglu trethi yn cael ei wneud yn raddol am yr ychydig flynyddoedd cyntaf ar ôl datganoli trethi yng Nghymru. Dylai hyn roi cyfle i sicrhau cysondeb yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf o'r trethi newydd yng Nghymru, ond bydd yn sicrhau bod cwmpas ar gyfer newid yn y dyfodol, naill ai pan fo Llywodraeth Leol Cymru mewn sefyllfa well ar ôl aildrefnu neu pan fo Awdurdod Cyllid Cymru wedi datblygu'r sgiliau, y ddealltwriaeth a'r arbenigedd i gasglu trethi yn effeithiol gan amharu cyn lleied â phosibl ar y trethdalwr.

Cred y Pwyllgor, er y dylid ymgynghori ag adrannau gwario ar bolisiau trethu, rhaid i'r Gweinidog Cyllid reoli'r system drethi yng Nghymru mewn ffordd integredig. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried adolygu polisiau trethu sy'n rhan o sawl portffolio gweinidogol, gyda'r cyfrifoldeb am drethi datganoledig yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyllid.

3. Rôl Awdurdod Cyllid Cymru

Cefndir

30. Yn ôl Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar [Gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru](#), yn seiliedig ar arfer gorau yn rhyngwladol, dylai'r endid corfforaethol sy'n gwneud y gwaith o gasglu a rheoli trethi fod yn gweithredu ar wahân i Weinidogion y Llywodraeth.

31. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi'r cyfrifoldeb am gasglu a rheoli trethi i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu trosglwyddo'r pwerau hynny i awdurdod treth arbenigol, a gyfansoddir yn gyfreithiol, sef [Revenue Scotland](#). Mae'r ddau ddull hyn yn fodd i gadw materion gweithredol ar wahân i'r Gweinidogion.

32. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig creu Awdurdod Cyllid Cymru fel adran anweinidogol.

33. Wrth ystyried Awdurdod Cyllid Cymru, ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- atebolrwydd a rôl Awdurdod Cyllid Cymru yn y dyfodol; ac
- annog cydymffurfiad â threthi a datrys anghydfodau treth.

Atebolrwydd a rôl Awdurdod Cyllid Cymru yn y dyfodol

34. Cyfeiriwyd at y broses o greu Awdurdod Cyllid Cymru fel "digwyddiad hanesyddol".²⁵ Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr ei bod yn bwysig gwneud pethau'n iawn fel ei fod yn rhywbeth sy'n para am ddegawdau ac nid rhywbeth y bydd angen ei amrywio yn y byrdymor.²⁶

35. Adleisiwyd y farn hon gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a ddywedodd fod angen sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru gyda'r nod o ddatganoli rhagor o drethi i Gymru.²⁷

36. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn pwysleisio'r angen i Awdurdod Cyllid Cymru fod ar wahân i Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Sefydliad Siartredig ar gyfer Trethiant fod angen i Awdurdod Cyllid Cymru fod yn

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 178

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 178

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT02

adran anweinidogol er mwyn sicrhau annibyniaeth weithredol, gydag atebolrwydd clir i Gynulliad Cymru a gwaith craffu priodol.²⁸

37. Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a bod yn atebol i'r Cynulliad.²⁹

38. Cytunodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a'r Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel³⁰ y dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod yn atebol i'r Cynulliad, ac awgrymodd y Ffederasiwn y dylai'r Pwyllgor Cyllid chwarae rôl yn y gwaith o graffu ar yr awdurdod.³¹

39. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod angen i Awdurdod Cyllid Cymru fod yn atebol:

“... in terms of direction and delivery. Looking at the engagement with the Assembly, we would want to see a robust system put in place to ensure that the revenue authority is truly answerable – that there isn’t just the usual process of laying an annual report and coming to answer questions.”³²

40. Dywedodd Revenue Scotland ei fod wedi darparu adroddiadau cynnydd bob chwe mis yn ystod y cyfnod gweithredu i Bwyllgor Cyllid Senedd yr Alban.³³

41. Rhoddodd Revenue Scotland amlinelliad o'r dulliau diogelu sydd ar waith i sicrhau annibyniaeth o Lywodraeth yr Alban. Dywedodd:

“We’re an independent body within the Scottish administration, if you’re interested in the constitutional niceties, which means that our staff are civil servants and our board members, collectively, are an independent office bearer within what is called the Scottish administration, but quite distinct from Scottish Ministers. So, they’re not subject to ministerial direction. The legislation very carefully does not give Ministers any power of direction over Revenue Scotland, but it does require that Revenue Scotland—which is the Revenue Scotland

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT01

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT03

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT07

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT02

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 95

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT04

board—agree a corporate plan every three years with Ministers.”³⁴

42. Yn ogystal â threfniadau atebolrwydd ffurfiol, mae angen i Awdurdod Cyllid Cymru hefyd fod yn atebol i'r trethdalwr. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu siarter trethdalwyr i gyfundrefnu'r gydberthynas rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a threthdalwyr.³⁵

43. Cafodd siarter trethdalwyr ei argymhell hefyd gan y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel er mwyn sicrhau safon gyson o wasanaeth gan Awdurdod Cyllid Cymru ac unrhyw sefydliadau allanol.³⁶

44. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod angen i Awdurdod Cyllid Cymru wella record Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn darparu gwybodaeth, canllawiau a chymorth, ac yn ymateb i bryderon a chwynion unigol.³⁷ Aeth y Ffederasiwn ymlaen i awgrymu meysydd y gallai Awdurdod Cyllid Cymru ganolbwyntio arnynt, fel:

“building a user-centric service rather than a bureaucratic service, these are the things that need to be built into the DNA of the organisation, however it functions-whether it’s national, local or whatever-and then to ensure that performance against those measures is accountable.”³⁸

45. Cafodd materion trawsffiniol hefyd eu crybwyll mewn perthynas â rôl Awdurdod Cyllid Cymru. Cred Cymdeithas y Cyfreithwyr ei bod yn bwysig bod awdurdod Awdurdod Cyllid Cymru yn cael ei gydnabod. Er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn Lloegr yn deall y newidiadau sydd ar waith o ran datganoli trethi, dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod angen “hunaniaeth” ar Awdurdod Cyllid Cymru.³⁹

46. Cytunodd yr Athro Holtham fod angen brand ar Awdurdod Cyllid Cymru, er mwyn sicrhau bod y trethdalwr yn glir i bwy y maent yn talu'r dreth:

“who’s levying this tax, whoever is collecting it...it may be important that people are clear, when they pay tax, to whom

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 15

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT01

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT07

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig), CMDT02

³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 107

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 107

they're ultimately paying it and who's made the decision about how much it is."⁴⁰

47. Nododd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi hefyd y bydd yn newid ei ganllawiau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r trethi datganoledig yng Nghymru gyda threthdalwyr yn Lloegr. Efallai y bydd angen cyfleu'r gyfradd newydd o Dreth Incwm yng Nghymru (sy'n parhau i fod yn rhan o system drethi y DU) yn uniongyrchol â threthdalwyr hefyd.⁴¹

48. Pwysleisiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y pwysigrwydd o sicrhau bod ymarferwyr cyfreithiol yn Lloegr yr un mor ymwybodol o'r setliad datganoli yng Nghymru ag ymarferwyr yng Nghymru. Dywedodd Mr Evans a oedd yn cynrychioli Cymdeithas y Cyfreithwyr yng nghyfarfod y Pwyllgor mai'r drefn ddiodyn ar gyfer cyhoeddwr cyfreithiol fyddai canolbwyntio ar y gyfraith yn Lloegr, felly roedd angen i wybodaeth am y newidiadau yng Nghymru fod yn hygyrch er mwyn sicrhau dealltwriaeth ymhlith ymarferwyr yn Lloegr a all fod yn ymdrin â chleientiaid o Gymru.⁴²

49. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, siaradodd Revenue Scotland am ragweld gwybodaeth ariannol. Dywedodd:

"We will be providing the data. That's really going to be our main role. I mean, now that we actually are collecting tax, we will be publishing figures on a monthly basis and then some more detailed figures annually. The data that we provide will, therefore, inform forecasts in future, but we don't have any in-house economic expertise."⁴³

50. Cadarnhaodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ei fod yn gweithio gyda'r Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb sy'n creu rhagolygon trethi. Dywedodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ei fod yn ystyried sut y byddai hyn yn gweithio mewn perthynas â'r Alban. Aeth yn ei flaen:

"The Scottish Fiscal Commission has recently been created and we need to work with the OBR to understand how we work with those two organisations in relation to forecasts. But as I say, it is, really, us working with the OBR at the moment in terms of

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 367

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Mai 2015, paragraff 448

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraffau 155-157

⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 19

forecasting, rather than something that we are doing in our own right.”⁴⁴

Safbwynt y Pwyllgor

51. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn debygol yr eir i'r afael â llawer o'r materion hyn yn y ddeddfwriaeth sydd i ddod, a'r gobaith yw yr aiff y Bil i'r afael â'r angen am eglurder ynghylch rhai o'r materion a godwyd gan randdeiliaid.

52. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth gref y dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod yn annibynnol ar y Llywodraeth, ac yn atebol yn uniongyrchol i'r Cynulliad.

53. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y dystiolaeth gan Awdurdod Cyllid yr Alban ar ragweld ac ystyriodd y wybodaeth hon yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i'r arfer gorau mewn prosesau cyllidebol. Roedd Argymhelliad 7 o ran 2 yr ymchwiliad hwnnw'n nodi:

“Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach y manteision a'r anfanteision o sefydlu comisiwn ariannol i Gymru, gan dalu sylw i'r trefniadau yn yr Alban a'r Iseldiroedd, a'i bod yn rhannu ei dadansoddiad gyda'r Pwyllgor.”

54. Gan ei bod yn glir nad yw'r corff casglu trethi annibynnol ynddo'i hun yn llunio rhagolygon trethi, mae'n bwysig bod sefydliad priodol yn gallu gwneud hynny. Cred y Pwyllgor fod hyn yn cefnogi'r achos dros gael corff ariannol annibynnol yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y caiff rhanddeiliaid eu cynrychioli ar fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell na ddylai dull casglu trethi Awdurdod Cyllid Cymru amrywio o'r DU oni bai bod rhesymau clir o ran pam y dylai dull Cymru fod yn wahanol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell er mwyn sicrhau bod Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithredu'r system drethi mewn ffordd dryloyw y dylai fod yn atebol yn uniongyrchol i'r Cynulliad gydag un o

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 414

Bwyllgorau'r Cynulliad yn gwneud y gwaith craffu. Dylai hyn gynnwys adroddiadau gweithredu bob chwe mis yn arwain at 2018, gan ddechrau ar unwaith.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad arall ar ei hystyriaeth o argymhelliad 7 (ystyried sefydlu comisiwn ariannol i Gymru) yn yr adroddiad ar arfer gorau mewn prosesau cyllidebol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai penderfyniad ynghylch creu comisiwn ariannol i Gymru ganiatáu digon o amser iddo gael ei weithredu'n briodol erbyn 2018.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried sut y gellir cyfleu datganoli trethi yn glir i ymarferwyr yng Nghymru a Lloegr, a dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod â brand clir er mwyn sicrhau bod ganddo hunaniaeth glir â'r cyhoedd.

Annog cydymffurfiad â threthi a ddatrys anghydfodau trethi

55. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod angen sicrhau gwahaniaeth rhwng y rheini na allant dalu a'r rheini nad ydynt yn talu, ac y dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod â darpariaeth i ddefnyddio disgrisiwn fel sy'n briodol yn eu barn hwy.⁴⁵

56. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru nad oedd y dull gweithredu yn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi bod yn gyson, a dywedodd y dylai Awdurdod Cyllid Cymru fod yn fwy cyson gan sicrhau bod hyblygrwydd i fusnesau sy'n mynd i drafferthion.⁴⁶

57. Hyrwyddodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y defnydd o ddull amgen o ddatrys anghydfod, sef dull sy'n cynnwys trydydd parti er mwyn helpu i ddatrys anghydfod. Dywedodd:

“we certainly believe that avoiding lengthy disciplinary, tribunal or court proceedings in any aspect is something that should be done and needs to be built again into the culture of the organisation...”⁴⁷

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ebrill 2015, paragraffau 294-296

⁴⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ebrill 2015, paragraff 434

⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ebrill 2015, paragraff 480

58. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y byddai am weld proses ofalus iawn fel y gallent, pan fo anghydfod ynghylch materion, ganfod yn gyflym a oedd yn fater y gellid ymdrin ag ef ar lefel gwaith achos. Dyna ble mae canllawiau ac ati yn bwysig iawn.⁴⁸

Safbwynt y Pwyllgor

59. Cred y Pwyllgor fod arbenigedd llywodraeth leol mewn casglu ac adfer trethi yn rhywbeth y dylid ei ddefnyddio yn y broses hon. Er nad yw llywodraeth leol mewn sefyllfa i gasglu trethi ar hyn o bryd, mae arbenigedd amlwg yn y broses o adfer trethi heb eu talu y gallai Awdurdod Cyllid Cymru ei ddefnyddio'n effeithiol.

60. Cred y Pwyllgor hefyd y dylai diwylliant Awdurdod Cyllid Cymru gydbwysu'r angen am gysondeb wrth gasglu trethi â'r gallu i ddangos hyblygrwydd cyn troi at gosbau ariannol.

Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer annog cydymffurfiad â threthi a datrys anghydfodau treth, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio arbenigedd llywodraeth leol a hyblygrwydd arferion mewn perthynas ag adfer treth.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y defnyddir y system o ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod, ac y dylai gynnwys cyswllt uniongyrchol â threthdalwyr cyn ystyried cosbau neu drafodion drud mewn llys.

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Ebrill 2015, paragraff 242

Atodiad A - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn:

www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

23 Ebrill 2015

Iestyn Davies	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Janet Jones	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Nick Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Jon Rae	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Gary Watkins	Cyngor Caerdydd

29 Ebrill 2015

Eleanor Emberson	Revenue Scotland
Dr Keith Nicholson	Revenue Scotland
Gerald Holtham	
Marc Evans	Allington Hughes
Dr Keith Nicholson	Revenue Scotland
Kay Powell	Cymdeithas y Cyfreithwyr

13 Mai 2015

Doug Stoneham	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Dr Marie-Claire Uhart	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=173

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Sefydliad Siartredig ar gyfer Trethiant	CMDT 01
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	CMDT 02
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	CMDT 03
Revenue Scotland	CMDT 04
Gerald Holtham	CMDT 05
Cymdeithas y Cyfreithwyr	CMDT 06
Y Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel	CMDT 07